**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-2061-23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Hydref 2023

Annwyl Elin,

**RHEOLIADAU DEDDF ARDRETHU ANNOMESTIG 2023 (DIWYGIADAU CANLYNIADOL I IS-DDEDDFWRIAETH) (CYMRU) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwyf yn eich hysbysu nad yw'r offeryn statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod. Rwyf yn amgáu copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

Gwneir yr offeryn statudol hwn o dan y pŵer a ddarperir gan adran 17(2) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023").

Daeth adrannau 1 i 3 a 14 o Ddeddf 2023, a Rhan 1 o'r Atodlen iddi, i rym adeg y Cydsyniad Brenhinol ac maent yn gwneud newidiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") sy'n arwain at yr angen am ddiwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth. Heb newidiadau canlyniadol, byddai effeithiolrwydd darpariaethau niferus o fewn is-ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at Ddeddf 1988 yn cael ei danseilio. Yn benodol, byddai cyfyngiad anfwriadol ar gwmpas rhai hawliau apelau ardrethi annomestig i rai talwyr ardrethi yn deillio o unrhyw fwlch rhwng cychwyn adrannau perthnasol o Ddeddf 2023 a dyddiad dod i rym yr offeryn statudol hwn. Felly, bernir ei bod yn angenrheidiol dod â'r offeryn statudol hwn i rym cyn gynted â phosibl ar ôl i Ddeddf 2023 ddod i rym, er mwyn sicrhau bod effaith polisi arfaethedig yr is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei chadw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r offeryn statudol hwn yn gwneud newidiadau canlyniadol angenrheidiol i'r is-ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017;
- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022; a
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government